PWYLLGOR Y CYFANSODDIAD

DYDD IAU, 15 MAWRTH 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Goodway(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Lister, Kelloway, McKerlich a/ac Wong |

22 : YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd McEvoy, ac o'r Cynghorwyr Goddard, Keith Jones a Jones-Pritchard gan eu bod yn ymwneud â busnes arall y Cyngor.

23 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

24 : AELODAETH Y PWYLLGOR

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lister i'r Pwyllgor.

25 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod ar 8fed Ionawr 2019 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

26 : CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU RHEOLI ANSAWDD AER

Argymhellodd yr adroddiad y dylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb am swyddogaethau rheoli ansawdd aer o'r Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd i'r Cabinet a bydd rhaid felly diwygio Adran 3 o'r Cynllun Dirprwyaethau, a byddai angen cymeradwyo'r newid gan y Cyngor llawn.

PENDERFYNWYD – bod y Pwyllgor yn argymell i'r Cyngor y dylid dyrannu swyddogaethau Rheoli Ansawdd Aer y Cyngor fel swyddogaethau'r Cabinet ac y dylid diwygio'r Cynllun Dirprwyaethau, Adran 3 yn unol â hynny.

27 : RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACTAU A CHYLLID

Croesawodd y Cadeirydd Ian Allwood (Pennaeth Cyllid), Liz Weale (Gwasanaethau Cyfreithiol, Caffael RhW a Phartneriaethau) a Steve Robinson (Comisiynu a Chaffael RhW) i'r cyfarfod.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor yn amlinellu'r diwygiadau arfaethedig i Reolau Contract Sefydlog a Rheolau Gweithdrefnau Contract a'r Rheolau Gweithdrefn Cyllid.

Nid oedd unrhyw newidiadau sylfaenol i'r Rheolau Gweithdrefn Cyllid, ar wahân i ddiffinio'n glir y risgiau a'r rheolaethau allweddol ar gyfer amgylchedd rheoli ariannol y Cyngor; adnewyddu'r rheolau ar reoli risg, twyll a gweithio mewn partneriaeth, ac ategir pob adran gan nodiadau canllaw gwell.

Mae'r prif newidiadau i'r Rheolau Contract Sefydlog yn ymwneud â:

- Safonau Iaith Gymraeg 76-80
- Mwy o bwyslais ar Fuddion Cymunedol
- Newidiadau i gyfleoedd Hysbysebu
- Newidiadau i drothwyon tendro
- Defnyddio Tendr Unigol a'r eithriadau i reolau
- Cyflwyno caffael electronig
- Newidiadau i'r awdurdod i gymeradwyo amrywiadau yn y contract
- Adrannau ychwanegol (Diffiniadau a Dehongliadau; Cynllunio Caffael, Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol; mwy o ddefnydd o dechnoleg (gan anelu at fynd yn ddi-bapur); Rheoli Contractau a Llwybrau Caffael.

PENDERFYNWYD –

1. Cymeradwyodd y Pwyllgor y newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Contract Sefydlog a'r Rheolau Gweithdrefnau Contract a'r Rheolau Gweithdrefn Cyllid, fel y dangosir yn Atodiad A a B i'r adroddiad a dylid adrodd y rhain i'r Cyngor llawn er gwybodaeth cyn eu gweithredu ar 1 Gorffennaf 2018;

2. Dirprwyodd y Pwyllgor awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau i ddiwygio'r Rheolau Gweithdrefn Cyllid ac i'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol i ddiwygio'r Rheolau Contract Sefydlog a Rheolau Gweithdrefnau Contract i gydymffurfio ag unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth ac i wneud unrhyw ddiwygiadau eraill a allai fod yn ofynnol o bryd i'w gilydd , nad ydynt yn newid yr uchod yn sylweddol.

## 28 : COFNODI CYFARFODYDD Y CYNGOR (CYFRYNGAU SAIN, GWELEDOL NEU GYMDEITHASOL)

Yn dilyn trafodaeth gan y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2017, cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Protocol Gweddarlledu a'r newidiadau i Gyfarfodydd y Cyngor, Cyfarfodydd Pwyllgor, Cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Rheolau Gweithdrefn Mynediad i Wybodaeth, i'w cymeradwyo a'u hargymell i'r Cyngor. Byddai'r diwygiadau yn dod â'r Cyngor yn unol â'r egwyddorion arfer gorau o ran bod yn agored a thryloyw a ddisgwylir gan lywodraeth leol.

PENDERFYNWYD –

1. nodwyd y trefniadau presennol ar gyfer cofnodi cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd Pwyllgorau fel y nodir yn yr adroddiad;

2. cymeradwyodd y Pwyllgor y Protocol Gweddarlledu diwygiedig fel y'i nodir yn Atodiad A, ac y dylid ei argymell i'r Cyngor llawn i'w gynnwys o fewn y cyfansoddiad, Rhan 5;

3. Cytunodd y Pwyllgor i ddiwygio rheolau Cyfarfodydd y Cyngor,

Cyfarfodydd Pwyllgor, Cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Rheolau Gweithdrefn Mynediad i Wybodaeth, fel y dangosir yn Atodiad B, er mwyn caniatáu cofnodi a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd cyhoeddus y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau; ac

4. argymhellir bod y rheolau gweithdrefn diwygiedig (y cytunwyd arnynt o dan 3 uchod) yn cael eu hargymell i'r Cyngor llawn i'w cymeradwyo.

29 : YMGYNGHORIAD AELODAU'R WARD

Roedd y Pwyllgor wedi gofyn am i'r Cynllun Dirprwyaethau, Adran 4, gael ei ddiweddaru er mwyn sicrhau bod y gofyniad i ymgynghori ag aelodau wardiau ar faterion arwyddocaol sy'n effeithio ar eu wardiau wedi'i ymgorffori ym mhrosesau gwneud penderfyniadau swyddogion y Cyngor. Teimlai'r Pwyllgor ei bod yn bwysig i swyddogion fod yn ymwybodol o'r canllawiau a ddarperir a'u rhoi ar waith. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd, er bod gostyngiad wedi bod yn nifer y swyddogion, bod gofynion Aelodau Ward yn cynyddu.

PENDERFYNWYD – bod y Pwyllgor yn argymell bod y Cyngor llawn yn diwygio'r Cynllun Dirprwyaethau, Adran 4A, paragraff 1.5 i ymgorffori'r gofynion ymgynghori Aelodau Wardiau y manylir arnynt yn yr adroddiad.

30 : GRWPIAU CYNGOR HOLLBLEIDIOL

Cafodd y Pwyllgor y protocol drafft ar gyfer Grwpiau Hollbleidiol y Cyngor a chytunwyd, er mwyn sicrhau eglurder a thryloywder, y dylid argymell y trefniadau canlynol, fel y'u nodir ym Mhrotocolau Grwpiau Hollbleidiol y Cyngor, i'r cyngor llawn:-

- Isafswm nifer yr aelodau fydd 5;
- Bydd grwpiau'n agored i bob aelod o bob plaid, gan gynnwys aelodau annibynnol;
- bod yn rhaid i'r grŵp gynnwys aelodau o fwy nag un grŵp plaid.

PENDERFYNWYD –

1 cymeradwywyd y ddarpariaeth ar gyfer sefydlu pob grŵp plaid fel y nodir yn yr adroddiad; a

2 dylid argymell i'r Cyngor llawn i ymgorffori'r Protocolau Grwpiau Hollbleidiol y Cyngor, fel y nodir yn yr adroddiad, o fewn rhan o'r Cyfansoddiad.

31 : PWYLLGOR CRAFFU MAINT AC AELODAETH GRWPIAU GORCHWYL A GORFFEN

Gohiriwyd ystyried yr eitem hon tan gyfarfod nesaf Pwyllgor y Cyfansoddiad

32 : BLAENGYNLLUN GWAITH

Y brif ffrwd waith ar gyfer y Pwyllgor yn 2017/18 oedd datblygu gwelliannau i agweddau ar y Cyfansoddiad, yn enwedig mewn perthynas â gwneud cyfarfodydd y Cyngor yn fwy effeithiol, gan roi mwy o dryloywder o ran sut gwneir penderfyniadau a’r ffordd mae’r Cyngor a'i swyddogion yn gweithredu.

PENDERFYNWYD – bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Blaengynllun Gwaith 2017/18 a'r meysydd a ystyrir fel blaenoriaethau fel y nodir yn Atodiad A.

33 : AMLDER CYFARFODYDD

Bu'r Pwyllgor yn trafod pa mor aml y cynhelid y cyfarfodydd, a chytunodd y byddai dau gyfarfod yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn ystod y Flwyddyn Ddinesig, oni bai fod angen cynnull cyfarfod arall.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.05 pm